Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 13 Mehefin 2023

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 19 MEHEFIN 2023** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

**SYLWER: CYNHELIR SESIWN AGORED/BRIFFIO TRWYDDEDU AR GYFER AELODAU YN SYTH AR ÔL Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

## AGENDA

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n peri rhagfarn ag unrhyw fater i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2022 (copi ynghlwm).

**7 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU YN 2022/23** (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar waith yr Adain Drwyddedu yn ystod 2022/23.

**8 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 21 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm), ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Michelle Blakeley-Walker
Joan Butterfield
Gwyneth Ellis
Bobby Feeley
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones
Delyth Jones
Paul Keddie
Win Mullen-James
Andrea Tomlin

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br><br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y  Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Gwyneth Ellis, Bobby Feeley (Cadeirydd), Martyn Hogg, Hugh Irving (Is-gadeirydd), Alan James, Paul Keddie, Win Mullen-James ac Andrea Tomlin

**Arsylwr** - Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (LB), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddogion Gorfodi - Trwyddedu (KB a NS), Rheolwr Fflyd (CB) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ, NH a SJ [Gweddarlledwr])

Ymgynghorydd Trwyddedu Joseph Mannix, InDepth Consultancy

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Michelle Blakeley-Walker

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni godwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022 a’u cadarnhau fel cofnod cywir.*

### 5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ADOLYGIAD TABL FFIOEDD A PHRISIAU CERBYDAU HACNI

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru aelodau ar yr adolygiad o’r Tabl Ffioedd a Phrisiau Cerbydau Hacni cyfredol a chynigiodd ffordd ymlaen.

Mae’r Pwyllgor Trwyddedu wedi cymeradwyo newidiadau i’r ffioedd cerbydau hacni ym mis Mehefin 2022 ac wedi gwneud cais bod swyddogion yn adolygu’r ffioedd ac

adrodd yn ôl i'r Pwyllgor mewn chwe mis. Bu i ymgynghorydd arwain y broses honno a chynigiwyd ffioedd a gyhoeddwyd i gael ymgynghoriad cyhoeddus. Y neges gyffredinol gan ymatebwyr oedd nad oedd angen newid yn y tariff. Roedd manylion y tariff cyfredol (Atodiad 1), adroddiad yr ymgynghorydd (Atodiad 2), a chrynodeb o ymatebion gan y fasnach (Atodiad C) a'r cyhoedd (Atodiad D) wedi'u hatodi i'r prif adroddiad.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at argymhellion yn adroddiad yr ymgynghorydd a methodoleg gynhwysfawr ar gyfer gosod tabl teg a thryloyw o ffioedd. Roedd diffyg ymgysylltiad gan y fasnach dacsi yn ystod y broses wedi golygu bod dim digon o wybodaeth wedi'i gael er mwyn gwneud penderfyniad ar sail tystiolaeth ar osod tariff tacsi a fyddai angen gwaith pellach wrth ystyried unrhyw newidiadau tariff yn y dyfodol. Roedd yr ymgynghorydd wedi argymell y canlynol -

- cyflwyno tri thariff ar gyfer tacsi sydd yn cludo pedwar unigolyn a thariff ar gyfer tacsi sydd yn cludo pump neu fwy o bobl.
- crynhoi'r gyfradd uned tariff, i ddeg ceiniog agosaf i gael gwared ar yr angen o ddefnyddio arian copr mân.
- cynnydd/ gostyngiad pris blynyddol, yn unol â Mynegai Pris Manwerthu ar gyfer Moduro
- mabwysiadu'r fethodoleg arfaethedig.

Hefyd cyfeiriodd y Rheolwr at bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth tacsi ar ddechrau 2023 a allai gael effaith ar osod ffioedd yn y dyfodol. O ganlyniad, roedd y swyddogion wedi argymell cadw'r tariff presennol a bod ymchwil pellach, gyda mewnbwn gan drwyddedai lleol, i benderfynu ar ffioedd tariff yn y dyfodol.

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad ynghyd â'r canfyddiadau' adroddiad yr ymgynghorydd, ac roedd cefnogaeth gyffredinol dros gadw'r tariff cyfredol ar hyn o bryd, yn arbennig gan ystyried y goblygiadau posibl gan bapur gwyn arfaethedig Llywodraeth Cymru ar osod tariff yn y dyfodol, mae'r gwaith pellach sydd ei angen i adeiladau sylfaen y fethodoleg arfaethedig wedi'i nodi yn adroddiad yr ymgynghorydd, a'r diffyg cyffredinol o gefnogaeth dros newid i'r tariff ar hyn o bryd. Roedd y Pwyllgor yn credu y byddai'n briodol i adolygu'r ffioedd tariff ymhellach ar ôl gwybod am unrhyw effaith ar osod tariff yn y dyfodol yn hysbys yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, ac i ystyried unrhyw ymchwil sy'n briodol gyda mewnbwn gan y fasnach dacsi trwyddedig.

Ymatebodd y Rheolwr i'r cwestiynau, gan gadarnhau mai'r bwriad oedd defnyddio'r fframwaith a darparwyr gan yr ymgynghorydd i lunio sail cyfrifo ffioedd a thaliadau cerbydau hacni yn y dyfodol. Fodd bynnag, cydnabu y byddai'r fframwaith angen craffu pellach gan ystyried mewnbwn gan y fasnach trwyddedu ac ymgysylltiad digonol er mwyn cynhyrchu'r dystiolaeth angenrheidiol i asesu costau gwirioneddol fel rhan o'r broses hwnnw. O ran y broses ymgysylltu nid oedd un corff yn Sir Ddinbych yn cynrychioli'r fasnach dacsi, ond darparwyd sicrwydd bod yr ymgynghoriad a gyflawnwyd wedi'i ymestyn i gynnwys cyfyngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg ychwanegol ynghyd â chyswllt gyda phob gyrrwr trwyddedig, gan roi digon o gyfle i ymgysylltu a rhoi mewnbwn ar y broses.

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r canfyddiadau yn adroddiad yr ymgynghorydd fel y nodwyd yn Atodiad 2 -

***PENDERFYNWYD*** *bod –*

*(a) y tariff cyfredol a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei gadw, a*

*(b) bod swyddogion yn cael eu cymeradwyo i gynnal ymchwil pellach, gyda mewnbwn angenrheidiol gan drwyddedai lleol, i alluogi'r aelodau benderfynu ar ffioedd tariff priodol yn y dyfodol.*

## 6 YSTYRIAETH AR GYFER PROSES DROS DRO AR GYFER CERBYDAU FFLYD NEWYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar adolygiad o'r gofynion oedran presennol ar gyfer cerbydau sy'n cael eu trwyddedu am y tro cyntaf gan y Cyngor, ac argymhelliad i gadw'r polisi oedran cyfredol ar gyfer cerbydau newydd i'r fflyd a rhai presennol.

Cafodd polisi presennol Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Rhagfyr 2016, a daeth i rym ar 1 Gorffennaf 2017. Roedd y polisi'n cynnwys cyfyngiad oedran ar gerbydau sef na ddylai unrhyw gerbyd newydd i'r fflyd fod yn hŷn na 5 mlwydd oed ac y dylid gwaredu unrhyw gerbyd sy'n cyrraedd 12 oed. Roedd y Pwyllgor wedi adolygu'r polisi oedran cerbyd yn eu cyfarfod blaenorol ac yn dilyn materion caffael cerbyd, gan gynnwys cost ac argaeledd, wedi awdurdodi swyddogion i edrych ar broses dros dro o ddyrannu ar gyfer penderfynu ar geisiadau newydd i'r fflyd i gerbydau dros 5 mlwydd oed ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Yn ogystal roedd y Pwyllgor wedi penderfynu ymestyn y cyfnod gras i ganiatáu cerbydau sydd â thrwydded eisoes yn cyrraedd 12 oed i aros ar y fflyd tan fis Gorffennaf 2024, ac i ymgynghori ymhellach ar ddiwygio'r polisi oedran drwy lacio oedran newydd i fflyd a'r cyfyngiad oedran uchaf.

Soniodd y Rheolwr am fanylion yr adroddiad a oedd yn cynnwys dadansoddiad o oedran cerbyd ar draws y fflyd, a buddsoddiad sylweddol gan berchnogion hyd yma, costau gwerthu cerbyd ar y farchnad, safonau'r diwydiant, cyfradd diogelwch, cyflenwad gwarant ac allyriadau. Tynnwyd sylw'r aelodau at y canlynol -

- ychydig iawn o gerbydau sy'n parhau ar y fflyd os ydynt dros y trothwy 12 oed, ac o'r rheiny mae'r perchnogion yn gallu manteisio ar y rheol cyfnod gras hen hawliau tan 2024.
- mae nifer sylweddol o gerbydau wedi cael eu cyflwyno i'r fflyd hyd yn hyn o ganlyniad i fuddsoddiad gan y perchnogion.
- y cynnydd mewn safonau diogelwch wrth i dechnoleg cerbydau ddatblygu
- adolygiad Llywodraeth Cymru o safonau tacsis yng Nghymru, a'r papur gwyn sydd ar y gweill, sy'n debygol o gynnwys oedran cerbydau.

Gan ystyried yr argymhellion hynny, bu i'r swyddogion argymell bod y polisi oedran cyfredol ar gyfer cerbydau fflyd newydd a fflyd gyfredol yn aros a bod diweddariad

ar adolygiad Llywodraeth Cymru ar safonau tacsi yn cael ei ddarparu ar adeg briodol.

Rhoddodd Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad, eto yn nodi'r effaith bosibl ar safonau cerbydau yn codi o bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth tacsi. Nodwyd bod dadansoddiad o oedran cerbydau ar draws fflyd drwyddedig yn dangos buddsoddiad sylweddol gan berchnogion hyd yma, ac nid oedd y polisi oedran cyfredol wedi atal, gyda'r diwydiant tacsi yn prynu cerbydau ar gyfer pwrpas trwyddedu o fewn amodiad oedran cyfredol. Hefyd nodwyd bod y cyfnod gras ar gyfer cerbydau sydd â thrwydded eisoes wedi'i ymestyn tan fis Gorffennaf 2024. Yn ogystal, amlygwyd mai bwriad y polisi oedran cerbyd oedd moderneiddio'r fflyd gyfredol o drwyddedau trwyddedig i sicrhau safonau uchel a diogelwch y cyhoedd sy'n teithio.

Gan fod safonau cerbyd o fewn cwmpas papur gwyn Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth tacsi, roedd yr aelodau wedi ystyried ei fod yn ddoeth i aros am ganlyniad yr ymgynghoriad hwn cyn adolygu gofynion oedran cerbyd, gan y byddai unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor ar hyn o bryd yn cael ei ddisodli yn ddiweddarach. Gofynnodd y Cynghorydd Martyn Hogg a fyddai'n bosibl i gael adolygiad yn y dyfodol o'r polisi oedran cerbyd, i feintoli effeithiau allyriadau carbon ar newidiadau polisi, a chyfeiriodd at gyfrifiad a oedd yn awgrymu bod y swm o garbon sy'n cael ei ryddhau wrth weithgynhyrchu cerbyd trydan newydd sbon yn gyfartal i'r hyn y roedd cerbyd disel 10 oed gyda dros 40,000 o filltiroedd yn ei ryddhau. Awgrymodd y Rheolwr i aros am ganlyniad papur gwyn Llywodraeth Cymru i ddechrau cyn ystyried a fyddai'n bosibl meintoli allyriadau carbon fel y disgrifir. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Fflyd bod diogelwch yn hollbwysig a bod cerbydau newydd yn gyffredinol mwy diogel na rhai hŷn.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth o fewn yr adroddiad,

***PENDERFYNWYD*** *bod –*

*(a) cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, a*

*(b) polisi oedran cyfredol i fflyd newydd o gerbydau yw dan 5 od, a bydd unrhyw gerbyd ar y fflyd sy'n 12 oed yn cael eu tynnu, oni bai bod hen hawliau yn berthnasol tan 2024, i'w cadw, a*

*(c) bod Aelodau'n cyfarwyddo'r swyddogion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Trwyddedu o ran manylion adolygiad Llywodraeth Cymru o safonau tacsis ar amser priodol yn ystod 2023*

## 7 ADOLYGU - DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn cyflwyno drafft y Cyngor o'i Ddatganiad o Egwyddorion (Deddf Gamblo 2005), i'w ystyried a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad statudol i adolygu'r Datganiad o Egwyddorion bob tair blynedd. Roedd ystyriaeth ddyledus wedi'i rhoi o amcanion trwyddedu Deddf

Gamblo 2005 a'r Comisiwn Gamblo ‘Canllaw Awdurdodau Trwyddedu' fel rhan o’r adolygiad hwnnw ac roedd y ddogfen ddrafft wedi’i datblygu gan y chwe awdurdod trwyddedu yng Ngogledd Cymru i sicrhau cysondeb mewn materion yn ymwneud â materion a swyddogaethau gamblo. Doedd dim newidiadau arwyddocaol wedi’u cynnig, ar wahân i newidiadau bach ac ychwanegiadau er mwyn cryfhau’r polisi cyfredol yn unol â chanllaw, a oedd wedi’i grynhoi yn Atodiad A o’r adroddiad, ac amlygwyd drafft Datganiad o Egwyddorion yn Atodiad B. Cadarnhawyd nad oedd y polisi presennol wedi bod yn amodol i unrhyw heriau cyfreithiol. Hefyd roedd manylion y broses ymgynghori wedi’i ddarparu a oedd yn cynnwys awdurdodau cyfrifol, deiliaid trwydded gyfredol a sefydliadau cefnogi. Os bydd unrhyw sylwadau yn dod i law o ganlyniad i’r ymgynghoriad, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Os na fydd unrhyw sylwadau yn dod i law bydd y datganiad terfynol yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor llawn ei gymeradwyo.

Cadarnhaodd Aelodau eu bod yn hapus i gymeradwyo’r drafft ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ac felly -

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo Datganiad o Egwyddorion drafft y Cyngor (Deddf Gamblo 2005) sydd wedi’i atodi i’r adroddiad ar gyfer ymgynghori statudol.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2023

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a oedd wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw) ar flaenoriaethau’r Adain Drwyddedu ynghyd â diweddariad ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2023.

Roedd blaenoriaethau’r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu’r ddyletswydd a roddir ar yr awdurdod mewn perthynas â’i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi trwyddedai yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu’r economi. Fodd bynnag yn sgil cynigion Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y ddeddfwriaeth tacsi newydd ym mis Ionawr 2023, roedd y rhaglen waith a gymeradwywyd yn flaenorol wedi’i ddiwygio ychydig i oedi adroddiad wedi’i drefnu ar yr adolygiad o Ddatganiad Polisi presennol Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, tan y flwyddyn nesaf pan fydd canlyniad yr ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi.

Nododd Aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf a’r diwygiadau arfaethedig i’r rhaglen gwaith i'r dyfodol. Yng ngoleuni papur gwyn Llywodraeth Cymru yn gynnar flwyddyn nesaf ar ddeddfwriaeth tacsi, a goblygiadau dilynol ar y diwydiant tacsi, gofynnodd y Pwyllgor bod diweddariad ar yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnwys yn y rhaglen gwaith i’r dyfodol cyn gynted ag y bydd y wybodaeth yn dod ar gael.

***PENDERFYNWYD** bod –*

*(a) cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, a*

*(b) yn amodol ar gynnwys diweddariad ar bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth tacsi ar y cyfle cyntaf sy’n briodol, y Rhaglen Gwaith i’r*

*Dyfodol ar gyfer 2023 fel y nodwyd yn Atodiad A o'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

*PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

Ar y pwynt hwn (10.15 am) cymerodd y pwyllgor egwyl fer.

## 9 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

(i) cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;

(ii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais gan nad oedd y cerbyd a gyflwynwyd i gael trwydded yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor ynghylch y cyfyngiad oedran pum mlynedd i gerbydau a drwyddedir gan gais newydd;

(iii) amodau ychwanegol yn berthnasol i drwyddedu mathau o gerbydau arbenigol megis yr un a gyflwynwyd yn yr achos hwn ynghyd â thystiolaeth gefnogol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, a

(iv) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Darparodd y Swyddog Gorfodi (KB) grynodeb o adroddiad a ffeithiau'r achos.

Cyflwynodd yr Ymgeisydd ei achos yn dweud ei fod yn weithredwr wedi'i hen sefydlu o gerbydau arbenigol gyda chofnod dilychwin a darparodd ychydig o gefndir am natur a gweithred y busnes. Manylodd ar y cerbyd arfaethedig ar gyfer y drwydded (cofrestrwyd yn 2008) a'i rhinweddau a oedd yn cynnwys safonau uchel a gofynion diogelwch, a gwaith cynnal a chadw ac amserlenni gwasanaeth. Cyflwynodd bod y polisi oedran yn cael effaith anghymesur ar natur arbenigol o'i fusnes, a bod y cerbyd dan ystyriaeth yn fath o gerbyd moethus na ddefnyddir fel arfer ar gyfer gwaith hurio preifat arferol gyda llai o waith traul. Hefyd cyflwynwyd, mewn cydnabyddiaeth o fathau cerbydau arbenigol o'r fath, nid oedd cynghorau eraill yn gosod polisi oedran i gerbydau o'r natur hwn.

Atebodd yr Ymgeisydd y cwestiynau gan yr aelodau ynghylch y defnydd posibl a milltiredd amcangyfrifedig y cerbyd, a darparu sicrwydd o ran amserlenni cynnal a chadw yn y dyfodol a phrofi cydymffurfiaeth, a chydlynu â'r amodau ychwanegol arfaethedig ar gyfer mathau cerbyd arbenigol. Roedd y Pwyllgor wedi rhoi

trwydded yn flaenorol ar gyfer cerbyd tebyg y tu allan i'r cyfyngiad ar sail debyg. Yn ei ddatganiad terfynol, dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn fodlon cydymffurfio gydag unrhyw amodau trwydded yr oedd y Pwyllgor yn ystyried yn briodol ar y cerbyd perthnasol.

Oedwyd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a -

***PENDERFYNWYD*** *bod y cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat yn cael ei roi yn amodol ar amodau ychwanegol fel y nodwyd yn Atodiad 3 o'r adroddiad.*

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried yn ofalus y cais, adroddiad y swyddog a'r achos a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn ysgrifenedig cyn y cyfarfod ac yn y cyfarfod ei hun

I ddod i benderfyniad, nododd y Pwyllgor natur a math o fusnes a weithredwyd, a bod yr Ymgeisydd yn weithredwr gydag enw da ac wedi hen sefydlu mewn gwasanaethau arbenigol o'r fath. Ar y sail honno, ac ar ôl ystyried yn arbennig y natur arbenigol y cerbyd arfaethedig i'w drwyddedu, defnydd bwriadedig o'r cerbyd, a gwasanaeth cynnal a chadw caeth dwywaith y flwyddyn gan y Gwasanaethau Fflyd, cytunodd yr aelodau bod achos wedi'i wneud i wyro o'u polisi cyfyngiad oedran yn yr achos hwn, ac i ganiatáu'r cais y gwnaethpwyd cais amdano, yn amodol ar yr amodau ychwanegol sydd yn berthnasol i'r math o gerbyd arbenigol, fel y nodir yn Atodiad 3 o'r adroddiad.

Cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

[Roedd y Pwyllgor yn teimlo y gallai mantais o gyflwyno polisi ar wahân o ran mathau o gerbydau arbenigol, a chytunodd y swyddogion y gallai'r mater fod yn amodol i ystyriaeth arall fel rhan o adolygiad polisi yn y dyfodol i symud ymlaen.]

Ar y pwynt hwn mi adawodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis y cyfarfod.

**10 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI**

[Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ond ni wnaeth gymryd rhan yn y broses a gadawodd y cyfarfod yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor ar y cais.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r canlynol –

(i) cais a ddaeth i law am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat;

(ii) roedd y cerbyd wedi ei drwyddedu ar gyfer hurio preifat yn flaenorol ond ni adnewyddwyd y drwydded cyn i'r drwydded bresennol ddod i ben, ac felly roedd angen delio â'r cais fel cais trwydded cerbyd newydd.

(iii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i ganiatáu’r cais gan nad yw’r cerbyd a gyflwynwyd i gael trwydded yn cydymffurfio â pholisi’r Cyngor ynghylch y cyfyngiad oedran pum mlynedd i gerbydau a drwyddedir gan gais newydd;

(iv) datganiad cefnogi’r Ymgeisydd, hanes MOT ac allyriadau’r cerbyd ynghyd â gwybodaeth perthnasol bellach yn berthnasol i’r cais, ac

(v) estyn gwahoddiad i’r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol ac roedd mecanig ei gerbyd gydag ef.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau’r pwyllgor.

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu’r adroddiad a ffeithiau'r achos.

Cyfeiriodd yr Ymgeisydd at gynnal a chadw’r cerbyd, gan sôn am y garej yr oedd mecanyddion y cerbyd yn cael ei gynnal, ac roedd yn cyflawni gwaith cynnal tu mewn y cerbyd ei hun. Roedd yn Gerbyd Hygyrch i Gadeiriau Olwyn. Wrth ymateb i gwestiynau’r Aelodau, dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi prynu cerbyd yn newydd ac nid oedd ganddo gynlluniau i’w newid/ cael un gwell oherwydd ei amgylchiadau personol a’r costau ynghlwm. Roedd y cerbyd ar gael i’w archwilio. Eglurodd amgylchiadau a wnaeth arwain at gais adnewyddu un ar ddeg diwrnod ar ôl y dyddiad terfyn y trwydded cerbyd oherwydd anawsterau yn cael darnau perthnasol oedd eu hangen i atgyweirio’r cerbyd er mwyn pasio’r prawf cydymffurfio, ac i gyflwyno’r dystysgrif cydymffurfio yn y cais adnewyddu. Roedd yr Ymgeisydd wedi cael ffurflenni adnewyddu gan y Cyngor yr oedd wedi’u cwblhau ac wedi eu rhoi o’r neilltu yn agosach at ddyddiad adnewyddu; roedd camgymeriad a oedd wedi arwain at gyflwyniad hwyr o’r cais adnewyddu.

Cadarnhaodd y swyddogion bod nodyn atgoffa o’r adnewyddiad yn cael eu hanfon mis ymlaen llaw a bod y dyddiad terfyn wedi’i nodi ar y plât trwydded y cerbyd. Hefyd, cyfrifoldeb deiliad y drwydded oedd cyflwyno cais adnewyddu cyn y dyddiad terfyn y drwydded gyfredol. Petai’r cais adnewyddu wedi’i gyflwyno o fewn yr amserlen, byddai hawliau tad-cu i gerbydau dros 12 oed a oedd gyda thrwydded yn barod, wedi cael cyfnod gras ac wedi’i ymestyn tan fis Gorffennaf 2024. O ran datganiad terfynol yr Ymgeisydd, cadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw beth i’w ychwanegu.

Oedwyd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a -

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais am Drwydded Cerbyd Hacni.*

Dyma resymau’r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried yn ofalus y cais, adroddiad y swyddog a’r achos a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd.

Penderfynodd y Pwyllgor Trwyddedu wrthod y cais oherwydd bod y Polisi ac Amodau Trwydded Cerbyd Hacni a Hurio Preifat yn nodi na ddylai cerbydau wedi'u trwyddedu o dan gais newydd fod yn hŷn na phump oed o ddyddiad ei gofrestru cyntaf. Gan fod y cerbyd mewn cyswllt â'r cais yn yr achos hwn yn dair ar ddeg oed, nid oedd yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor.

Wrth ddod i benderfyniad, roedd y Pwyllgor wedi ystyried yr holl dystiolaeth cyn hyn a oedd yn cynnwys sylwadau ysgrifenedig a ddosbarthwyd cyn y gwrandawiad, a sylwadau ar lafar yn ystod y gwrandawiad ei hun, ac wedi pwysoli'r canlynol -

- bod y cerbyd wyth mlynedd yn hŷn na'r cyfyngiad oed fel y nodir ym mholisi'r Cyngor
- hanes gwasanaethau a MOT y cerbyd cyffredinol yn dangos materion amlwg o beidio â chydymffurfio dros nifer o flynyddoedd, fel y nodir yn y methiannau/ ymgynghoriadau o fewn Atodiad 3 o'r adroddiad.
- lleoliad tystysgrif cydymffurfio rhwng 6 Ionawr 2022 a 7 Hydref 2022 a defnydd o gerbyd i gludo aelodau o'r cyhoedd heb y dystysgrif hon.

Mi wnaeth y Pwyllgor ystyried eu dyletswydd i sicrhau bod cerbydau wedi'u trwyddedu yn ddiogel i aelodau'r gymuned, yn arbennig defnyddwyr diamddiffyn mewn cadeiriau olwyn, a bod hyn yn hollbwysig. Roedd Polisi cyfredol y Cyngor wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd ac wedi'i fabwysiadu i godi safonau ymysg y fflyd a chyfyngiad oed cerbydau newydd yn rhan o'r broses hwnnw. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried nad oedd yr Ymgeisydd wedi cynnig rhesymau derbyniol a fyddai'n eu perswadio i wyro oddi wrth bolisi'r Cyngor yn yr achos hwn.

Cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd. Cynghorwyd yr Ymgeisydd o'i hawl apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Llys Ynadon o fewn un diwrnod ar hugain o ddyddiad derbyn y llythyr penderfyniad ffurfiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 19 Mehefin 2023 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br><br>01824 706066 |
| TESTUN: | Y wybodaeth ddiweddaraf am Waith yr Adain Drwyddedu yn 2022/23 |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 I roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau am waith y Swyddogion Trwyddedu.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y gwaith mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Adain Drwyddedu ac mae'n cynnwys trwyddedau a gyflwynwyd, cwynion a cheisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd a gweithgareddau eraill a gwblhawyd yn 2022/23.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Nid oes angen penderfyniad.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae'r adroddiad wedi'i dorri lawr i ddwy brif ran, sef materion gweithredol a materion rheoli.

**5. PROBLEMAU A CHASGLIADAU - MATERION GWEITHREDOL**

5.1 <u>Alcohol ac Adloniant</u>

5.1.1 Mae yna 501 eiddo trwyddedig - 113 yn gwerthu ar y safle; 132 yn gwerthu oddi ar y safle; 212 yn gwerthu ar/oddi ar y safle - a 172 sefydliad lluniaeth hwyr y nos, mae 31 ohonynt dim ond yn gwerthu lluniaeth hwyr y nos. Mae yna 1393 o ddeiliaid trwydded bersonol.

5.1.2 Roedd 16 o gwynion gan y cyhoedd mewn perthynas ag eiddo trwyddedig ac roedd y rhan fwyaf helaeth o'r rheini'n gysylltiedig â materion a oedd yn ymwneud â niwsans sŵn ond hefyd yn ymwneud ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwerthu dan oed. Mae'r rhain wedi'u datrys trwy gydweithio gyda'n gwasanaethau ac mae camau priodol wedi'u cymryd neu gyngor priodol wedi'i roi lle bo angen neu os ydynt yn parhau.

5.1.3 Yn ystod y flwyddyn, cafwyd ceisiadau ar gyfer:-

- 8 eiddo newydd
- 40 cais i drosglwyddo trwydded
- 9 cais i amrywio amodau neu fanylion y drwydded
- 77 amrywiad o Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig
- 210 rhybudd digwyddiad dros dro
- 68 trwydded bersonol newydd a 22 newid i fanylion trwydded bersonol

5.1.4 Mae Swyddogion Trwyddedu yn parhau i weithio ochr yn ochr â phartneriaid - Heddlu Gogledd Cymru, Swyddogion Gorfodi Mewnfudo a thimau eraill yng Nghyngor Sir Ddinbych megis Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach - i gynnal ymweliadau ar y cyd lle bo angen, gan gynnwys ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, ymweliadau ar y cyd i siopau trwyddedig mewn perthynas â gwerthu alcohol i unigolion dan oed.

5.1.5 Mae Swyddogion Trwyddedu yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd - unwaith yr wythnos fel arfer - gyda chydweithwyr o Heddlu Gogledd Cymru er mwyn canfod a delio â materion sy'n dod i'r amlwg gan ddilyn yr egwyddorion a nodir yn Natganiad Polisi Trwyddedu e.e. ymgysylltu Lefel 1/ Cynlluniau Gweithredu Lefel 2.

5.2 Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

5.2.1 Ar hyn o bryd, mae yna

- 219 Cerbyd Hacni gyda 10 ohonynt yn hygyrch i gadair olwyn.
- 49 Cerbyd Hurio Preifat gyda 10 ohonynt yn hygyrch i gadair olwyn.
- 14 o Weithredwyr Hurio Preifat
- 17 o Yrwyr Cerbyd Hurio Preifat
- 268 Gyrrwr y ddau fath o gerbyd

5.2.2 Bu 20 cwyn yn ymwneud â thacsis yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â materion o ran cerbyd heb drwydded / cerbyd nad yw'n cydymffurfio, parcio anghyfreithlon, gyrru'n ddiofal, ymddygiad camdriniol / amhriodol ac ysmygu yn y cerbyd. Cymerwyd gweithred briodol neu mae'r mater yn parhau ar lefel swyddog.

5.2.3 Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 34 ymgeisydd newydd am drwydded i yrru cerbydau hurio preifat / cerbydau hacni. Tynnwyd tri o'r ceisiadau yn ôl ar gais yr ymgeisydd a bu i saith gyrrwr trwyddedig ildio eu trwydded. Hefyd, yn ystod y flwyddyn bu i un gyrrwr golli ei drwydded a bu i drwydded un gyrrwr arall gael ei hatal.

5.2.4 Yn ychwanegol i'r profion cydymffurfio arferol, cynhaliwyd gwiriadau ad hoc ar 106 cerbyd mewn amrywiaeth o leoliadau - ysgolion, safle tacsis ac wrth ymyl y ffordd. Roedd diffygion ar draean ohonynt (33%), er roedd y mwyafrif yn ymwneud â mân amodau nad oedd yn ymwneud â diogelwch.

5.2.5 Yn ystod y flwyddyn bu rheswm i'r Swyddogion gyflwyno hysbysiad atal cerbyd ar 23 achlysur. Er bod rhai yn ymwneud â methiannau cydymffurfio

mewn archwiliadau penodol neu wiriadau ochr y ffordd, mae ambell un sy'n ymwneud â gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac yn aros i'w hatgyweirio.

5.3 Gamblo, Hapchwarae a Loterïau

5.3.1 Yn y flwyddyn adrodd hon mae:

- 5 Canolfan Gemau i Oedolion
- 3 Canolfan Adloniant i Deuluoedd
- 3 Trwydded Safle Bingo
- 12 Siop betio
- 1 Trwydded hapchwarae clwb
- 7 Trwydded peiriant clwb
- 7 Caniatâd Canolfan Adloniant Hapchwarae Deuluol Ddidrwydded
- 11 Caniatâd Safle Trwyddedig
- 82 Loterïau cofrestredig

5.3.2 Cyflwynwyd un cwyn yn erbyn arferion eiddo trwyddedig ond ni chafodd ei gadarnhau.

5.4 Masnachu ar y Stryd

5.4.1 Ni chafwyd unrhyw geisiadau am drwydded masnachu ar y stryd yn y flwyddyn adrodd hon.

5.4.2 Cyflwynwyd tri chwyn oedd yn ymwneud ag arferion masnachu ar y stryd, mae pob un wedi cael eu datrys.

5.5 Casgliadau Elusennol

5.5.1 Bu:

- 12 caniatâd am gasgliadau o dŷ i dŷ
- 7 caniatâd am gasgliadau ar y stryd

5.5.2 Ni chafwyd unrhyw gŵyn am gasgliadau o dŷ i dŷ ac fe gafwyd un cwyn am gasgliadau ar y stryd. Datryswyd y mater.

5.6 Metel Sgrap

5.6.1 Bu saith cais yn y flwyddyn bresennol ar gyfer trwydded metel sgrap; 3 safle a 4 casglwr, mae un ohonynt yn gasglwr newydd. Dylid nodi bod trwyddedau'n para am 3 blynedd.

5.6.2 Cafwyd dau gŵyn mewn cysylltiad â phroblemau metel sgrap, roedd pob un yn ymwneud â gweithgarwch didrwydded posibl ac mae'r mater yn parhau.

5.7 Ceisiadau Gwasanaeth / Rhyddid Gwybodaeth

5.7.1 Yn ystod y flwyddyn bu:

- 415 cais gwasanaeth a gofnodwyd ar draws ystod o swyddogaethau a gynhaliwyd gan y Tîm Trwyddedu lle gofynnwyd am wybodaeth neu gyngor ac ati a rhoddwyd y cyngor hwnnw, a
- Derbyniwyd 20 cais Rhyddid Gwybodaeth, yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion, a rhoddwyd ymateb priodol. Bu un cais gan unigolyn i weld gwybodaeth amdanynt eu hunain, a rhoddwyd ymateb priodol.

5.8 <u>Canlyniadau cyffredinol llwyth gwaith</u>

5.8.1 Yn ystod y flwyddyn bu:

- 222 archwiliad, yn bennaf yn ymwneud â cherbydau a safleoedd trwyddedig ar gyfer alcohol a hapchwarae, a
- Dros 5,000 o ryngweithiadau gyda Swyddogion Trwyddedu yn cynnwys y rhai'n gysylltiedig ag archwiliadau a chwynion yn ogystal â rhyngweithiadau eraill gyda busnesau a'r cyhoedd, e.e. galwadau ffôn, llythyron, rhybuddion ac ati.

5.9 <u>Cyfathrebu</u>

5.9.1 Cyfathrebu aml a rheolaidd (yn bennaf drwy e-bost) gyda deiliaid trwydded. Swyddogion Trwyddedu yn parhau i gyhoeddi newyddlenni cyfnodol i'r diwydiant tacsis lleol.

**6. MATERION RHEOLI**

6.1 <u>Polisïau</u>

6.1.1 Mae nifer o adolygiadau polisi wedi'u cychwyn yn ystod y flwyddyn, y rhai mwyaf nodedig yw'r rhai sy'n ymwneud â thacsis, gan gynnwys y prisiau, a'r Datganiad Polisi Gamblo. Mae Swyddogion wedi llunio Cynllun Gwaith i'r Dyfodol diwygiedig a byddant yn parhau i ddiweddaru Aelodau am hynny ym mhob gwrandawiad pwyllgor.

6.2 <u>Ffioedd</u>

6.2.1 Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r ffioedd a thaliadau ar gyfer gweinyddu'r cynllun trwyddedu tacsis wedi newid er bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn 2023.

6.3 <u>Ystyriaethau llwyth gwaith ychwanegol yn y dyfodol</u>

6.3.1 Fel nifer o flynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r modd y mae trefn trwyddedu tacsis yn cael ei reoleiddio a'i weinyddu. Mae cyhoeddi'r Papur Gwyn ym mis Ebrill yn amlinellu ystyriaethau LlC a bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'u cyfoedion yn genedlaethol a LlC i sicrhau bod gofynion cadarn y gellir eu cyflawni'n cael eu hystyried. Bydd swyddogion yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau fel bo'r angen.

6.3.2 Mae swyddogion yn edrych ar gyfleoedd pellach i alluogi proses fwy effeithlon i ymgeiswyr ar gyfer amrywiaeth o drwyddedau a gyflwynir. Mae'r Gwasanaeth wedi symud gwaith gweinyddu a chymhwyso prosesau'n

ymwneud â thacsis, yn bennaf tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), gwiriadau trwyddedau gyrru'r DVLA a Phrofion Gwybodaeth, i broses ar-lein unigryw yn ddiweddar. Bydd swyddogion yn gweithio i weithredu cyfleuster ceisiadau a chofrestrau cyhoeddus ar-lein yn ystod y flwyddyn.

6.3.3 Mae swyddogion yn trefnu hyfforddiant datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu. Yn ychwanegol i gefnogi datblygiad parhaus Aelodau, gall Swyddogion fodloni unrhyw geisiadau gan Aelodau'r Pwyllgor sydd â diddordeb cysgodi Swyddogion gyda'u dyletswyddau.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Bod y Pwyllgor:

a. yn nodi'r adroddiad gweithgaredd ar gyfer eleni, ac
b. yn nodi a gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 19 Mehefin 2023 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Yr Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2023 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu am 2023.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi Trwyddedeion yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Oherwydd blaenoriaethau na ragwelwyd, yn anffodus bu'n rhaid diwygio ychydig ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gymeradwywyd gan Aelodau mewn cyfarfod blaenorol ac mae materion wedi eu haildrefnu i'w hystyried.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd Aelodau'n cofio bod Swyddogion wedi cyflwyno rhaglen waith wedi ei diweddaru yn y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr 2022, ac fe'i cymeradwywyd. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyhoeddi Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) yn ddiweddar – sydd, ar amser ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn dal i fod yn destun ymgynghoriad tan 1 Mehefin 2023 – mae'r adroddiad a drefnwyd ar yr adolygiad o Ddatganiad Polisi presennol Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat wedi ei ohirio hyd nes y gwyddys beth yw canlyniad y Papur Gwyn. Gweler Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig yn Atodiad A.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau’n nodi cynnwys yr adroddiad, ac

4.2 Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau’n ystyried ac yn cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol ddiwygiedig y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer 2023.

**Atodiad A**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2023**

| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Adroddiad** | **Sylw** |
|---|---|---|
| **13 Medi 2023** | Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | Diweddariad yn dilyn ymgynghoriad i'w gymeradwyo |
| | Adolygu Is-ddeddfau Cerbydau Hacni | Adolygu'r Is-ddeddfau presennol |
| **6 Rhagfyr 2023** | Adolygu Polisi Eithrio Platiau Cerbydau Hurio Preifat | Adolygu'r polisi presennol |
| | Adolygu Polisi Defnydd Arfaethedig | Adolygu'r polisi presennol |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag